

Fersiwn:	1
Dyddiad:	Mawrth 2010



## Dyfnyddio ysgolion ac ysgolion grisiau yn ddiogel

Taflen wybodaeth ar gyfer gweithwyr – Rhif 1



# Iechyd a Diogelwch - Taflen wybodaeth ar gyfer gweithwyr (Rhif 1)

**Pwnc:** Defnyddio ysgolion ac ysgolion grisiau yn ddiogel

**Dyddiad:** Mawrth 2010

**Fersiwn:** 1

## Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth yma'n ategu polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig y Cyngor. Ei phwrpas yw darparu cyngor cyson a phriodol o ran y defnydd diogel o ysgolion ac ysgolion grisiau. Dylai'r rhestr wirio gael ei defnyddio i gofnodi'ch archwiliadau ysgolion rheolaidd.

## Pryd mae modd defnyddio ysgolion?

Dydy'r Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 **ddim** yn atal y defnydd o ysgolion neu ysgolion grisiau, fodd bynnag, mae'r rheoliadau yn gofyn i chi ystyried y canlynol:

- Rhaid peidio â chynnal gwaith ar uchder lle mae'n rhesymol i'r gwaith gael ei wneud heb yr angen am offer mynediad.
- Os oes angen i'r gwaith gael ei gynnal ar uchder, dylai ysgolion ac ysgolion grisiau gael eu defnyddio os y rhain yw'r eitemau o offer mwyaf addas yn unig.
- Lle mae gwaith yn mynd i fod am gyfnod hir, mae rhaid ystyried dulliau eraill o fynediad.
- Pan fydd staff yn effro i'r risgiau ac yn deall y defnydd cywir. Os oes angen hyfforddiant, rhaid ei ddarparu.

**Rydyn ni'n argymhell bod taflen INDG 4012 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael ei rhoi i staff sy'n cynnal gwaith ar uchder ac sy'n defnyddio un ai ysgolion neu ysgolion grisiau. Mae'r daflen yn rhoi canllawiau bras ar sut i ddefnyddio'r offer yn gywir. Mae copïau unigol o'r daflen ar gael am ddim o 'HSE Books' ac mae fersiwn mae modd ei lawrlwytho ar gael trwy glicio ar y ddolen isod:**

[INDG 402 – 'Defnyddio ysgolion ac ysgolion grisiau yn ddiogel'](#)

Mae'r canllaw yma'n rhoi gwybodaeth glir ynghylch pryd mae'n addas i ddefnyddio ysgolion ac ysgolion grisiau, yn ogystal â phryd y dylai offer arall gael ei ystyried yn lle hynny.

Mae'r canllaw yma hefyd yn ystyried "a yw'n lle diogel i ddefnyddio ysgol" ac "ydy fy ngweithwyr sy'n defnyddio ysgolion yn gwybod sut i'w defnyddio."

Os 'na' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau yma, rhaid i'r offer beidio â chael ei ddefnyddio.

## Damweiniau sy'n ymwneud ag ysgolion ac ysgolion grisiau

Mae ysgolion grisiau yn darparu dull annibynnol o ran mynediad, ond rhaid eu defnyddio'n ofalus. Dydyn nhw ddim wedi'u cynllunio i gymryd unrhyw bwysau o'r ochr ac mae'n eithaf hawdd eu troi drosodd. Mae'r rhan fwyaf o ddamweiniau sy'n ymwneud ag ysgolion grisiau o ganlyniad i gamgymeriadau dynol ac nid o ganlyniad i ddiffygion yr ysgol ei hun.

Mae llawer o weithwyr yn cael eu lladd neu eu hanafu bob blwyddyn tra maen nhw'n defnyddio ysgolion, yn aml wrth gyflawni tasgau o 30 munud neu lai. Dyma brif achosion damweiniau sy'n ymwneud ag ysgolion:

- Diogelu neu osod yr ysgol mewn modd gwael neu annigonol. Mae hyn yn cynnwys y llawr mae'r ysgol yn sefyll arno yn ogystal â'r hyn mae'r ysgol yn pwyso yn ei erbyn. (Mae hyn yn rhoi cyfrif am 50% o'r damweiniau sy'n ymwneud ag ysgolion.)
- Dringo ysgolion wrth gario llwythi.
- Estyn yn rhy bell a cholli cydbwysedd.

## Mathau o ysgolion

Mae rhaid i bob ysgol sy'n cael ei defnyddio fodloni gofynion y safon briodol. Dylai'r holl offer newydd sy'n cael eu prynu fodloni'r safonau yma.

- Dosbarth 1 (Diwydiannol) - Uchafswm llwyth fertigol sefydlog 175 cilogram (27.5 stôn).
- Dosbarth 3 (Domestig) - Uchafswm llwyth fertigol sefydlog 125 cilogram (19.5 stôn).
- BS EN 131 - Uchafswm llwyth fertigol sefydlog 150 cilogram (23.5 stôn).

Cofiwch holi bob amser am y safon Brydeinig neu Ewropeaidd berthnasol wrth brynu, llogi neu ddefnyddio ysgolion. Os nad yw hynny wedi cael ei nodi ar yr ysgol neu ei gynnwys yng nghanllaw'r gwneuthurwr, cysylltwch â'r gwneuthurwr neu'r cyflenwr i sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r safon Brydeinig neu Ewropeaidd ofynnol.

Rhaid i ddulliau eraill o fynediad, er enghraifft, ysgolion atig, ysgolion fertigol sefydlog, fod yn addas at y diben.

## Camau Gweithredu - Yr hyn sydd raid i chi ei ystyried cyn defnyddio unrhyw fath o offer

Cyn defnyddio unrhyw gyfarpar ar gyfer gweithio ar uchder, dylai asesiad risg 'gweithio ar uchder' gael ei gynnal. Ar gyfer tasgau ysgol syml iawn, efallai na fydd angen asesiad risg ffurfiol, fodd bynnag, ar gyfer tasgau a fydd yn cael eu cyflawni drwy ddefnyddio ysgol ac sy'n creu risgiau sylweddol, rhaid i asesiad risg ffurfiol gael ei gynnal gan berson cymwys, sy'n nodi'r wybodaeth ganlynol:

- Y dasg y mae angen ei chyflawni
- Yr offer penodol sydd i'w ddefnyddio
- Y risgiau sy'n bresennol wrth ymgymryd â'r dasg yma, gan gynnwys ffactorau allanol megis gwynt, glaw, rhew ac ati

Yn ogystal â chwblhau asesiad risg ar gyfer sut mae'u defnyddio, dylid pennu system ffurfiol ar gyfer gwirio ysgolion a chofnodi unrhyw sylwadau. Mae enghraifft o restr wirio nodweddiadol ar gyfer ysgolion ar ddiwedd y ddogfen yma.

### **Rhagor o wybodaeth**

- 'INDG 402 -'Defnyddio ysgolion ac ysgolion grisiau yn ddiogel'

# Rhestr wirio ar gyfer ysgolion

Cyfeirnod / math / gwneuthuriad ..... Deunydd (pren / alwminiwm): .....

<b>Dyddiadau archwilio:</b>	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /
<b>Cyflwr cyffredinol solet (glân a sych)</b>												
<b>Dim craciau</b>												
<b>Dim grisiau ar goll neu rydd</b>												
<b>Heb ei phaentio*</b>												
<b>Dim estyll† sydd wedi'u difrodi neu'u plygu</b>												
<b>Dim camu neu hollti (pren)</b>												
<b>Dim cyrydiad (metel)</b>												
<b>Dim ymylon miniog neu dolciau (metel)</b>												
<b>Dim grisiau sydd wedi'u plygu (metel)</b>												
<b>Padau traed yn iawn</b> Wedi'u rybereiddio ar gyfer trydan												
<b>Capiau/ffitiadau rwber yn iawn</b>												
<b>Traed gwrthlithro rwber neu blastig yn iawn (metel)</b>												
<b>Blaenlythrennau'r person sy'n archwilio</b>												

\* Ddylai ysgolion byth gael eu paentio, gan y gall hyn guddio diffygion peryglus. Gall ysgol bren gael ei diogelu gyda farnais clir neu sylwedd gwrthbydrol tryloyw.  
 † Estyll yw'r pyst fertigol ar ysgol